**YMATEB LLYWODRAETH CYMRU I ARGYMHELLION ADRODDIAD Y PWYLLGOR MENTER A BUSNES:**
**PONTENSIAL YR ECONOMI FOROL YNG NGHYMRU**

**MAWRTH 2016**

---

Mae Llywodraeth Cymru yn cydnabod bod gan yr economi forol botensial real i gynyddu ffyniant a gwella lles ein cymunedau. Bydd Cynllun Morol Cenedlaethol cyntaf Cymru (CMCC) yn arwain at benderfyniadau fydd yn cael eu gwneud yn unol â chynllun ac yn ein helpu i ddatblygu'n hardaloedd morol mewn ffordd gynaliadwy. Bydd y polisi strategol hwn, gyda thystiolaeth gadarn yn sail iddo, yn ein helpu i nodi'r cyfleoedd y gall ein moroedd eu cynnig inni yn y dyfodol. Mae drafft cyntaf CMCC a'r porthol tystiolaeth cynllunio morol ar gael i'w gweld ar wefan Llywodraeth Cymru. Byddwn yn parhau i ddatblygu'n polisi mewn ffordd agored a chydweithredol. Mae'n flaenoriaeth gennym gysylltu â'r cyhoedd mewn ffordd ystyrlon gydol y broses gynllunio, hynny yn unol â'r Datganiad ynghylch Ymgysylltu â'r Cyhoedd.

**Prif Argymhelliad**
**Dylai Llywodraeth Cymru sicrhau bod Cynllun Morol Cymru yn darparu fframwaith cynhwysfawr a chyffredinol ar gyfer datblygu adnoddau morol Cymru a'i chymunedau arfordirol yn gynaliadwy. Dylai gynnwys amcanion a thargedau mesuradwy - gan gynnwys perfformiad economaidd - a dylid ei roi ar waith gan ddefnyddio dull 'Llywodraeth gyfan', wedi'i fodelu ar Gynllun Morol Integredig Iwerddon.**

**Ymateb: Derbyn yr egwyddor**

Mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i reoli'n moroedd mewn ffordd fwy integredig a chynlluniedig i sicrhau eu cynaliadwyedd tymor hir. Bydd CMCC yn helpu i sicrhau bod adnoddau naturiol y môr yn cael eu rheoli a'u defnyddio mewn ffordd gynaliadwy gan gyfrannu felly at gyflawni nodau Llesiant Cenedlaethau Dyfodol Cymru.

Mae cynllunio morol yn faes cymhleth sy'n rhychwantu ffiniau pynciau. Mae'n hanfodol bod cynllun morol, iddo allu sicrhau'r eglurder sydd ei angen, yn integreiddio Adrannau. Rydym wedi datblygu'n polisïau gyda phob rhan o Lywodraeth Cymru wedi cyfrannu atynt.

Mae CMCC yn cael ei ddatblygu yn unol â Deddf y Môr a Mynediad i'r Arfordir 2009 a Chyfarwyddeb Cynllunio Gofodol Morol yr UE 89/2014 a bydd yn ymwreiddio deddfau newydd Llywodraeth Cymru fel Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru). Mae'r ymrwymiad i ddatblygu cynaliadwy yn ganolog i bwrpas y cynllun.

Mae cynllunio morol yn cefnogi'r symudiad at integreiddio'r modd y llywodraethwn ein moroedd. Bydd CMCC yn cynnig fframwaith polisi cynhwysfawr ar gyfer penderfyniadau ar ddefnyddio'n moroedd yn y dyfodol. Yn ein barn ni, mae'n hanfodol ein bod yn cyflwyno ac yn cynnal cynllun morol yng Nghymru mewn ffordd gydweithredol a chynhwysol. Rydym wrthi'n datblygu cynllun arfarnu i helpu i fesur effaith amcanion a pholisïau'r cynllun. Bydd yn cynnwys fframwaith monitro fydd yn helpu i'w roi ar waith.

**Argymhelliad 1**
**Blaenoriaethu cyfranogiad mewn rhwydweithiau, prosiectau a phartneriaethau'r UE yn y sector ynni morol, gan ddefnyddio dull rhagweithiol a blaengar o ran ymgysylltu â mentrau ar lefel yr UE.**

**Argymhelliad 3**
**Archwilio'r potensial ar gyfer datblygu Rhanbarth Macro yr Iwerydd neu Bartneriaeth Strategol, mewn trafodaethau ag Iwerddon, yr Alban, Llywodraeth y DU, y Comisiwn Ewropeaidd, a thrwy ei haelodaeth o Bwyllgor y Rhanbarthau a Chynhadledd y Rhanbarthau Morol Ymylol.**

**Argymhelliad 4**
**Mynnu penderfyniadau gan Lywodraeth y DU i sicrhau bod eglurder ynghylch prisiau streic ar gyfer technolegau ynni morol adnewyddadwy gwahanol cyn gynted â phosibl.**

**Argymhelliad 14**
**Adolygu'r gefnogaeth i ynni morol a'r economi forwrol ehangach yn Swyddfa Llywodraeth Cymru ym Mrwsel ac archwilio sut y gellir cryfhau hynny drwy bartneriaeth rhwng tîm Llywodraeth Cymru, Addysg Uwch yng Nghymru a swyddfeydd CLlLC.**

**Ymateb: Derbyn**

Mae'r Grŵp Gorchwyl a Gorffen Morol wedi cyflwyno ei adroddiad a'i argymhellion imi ar y sector ynni morol, sector sy'n megis dechrau yng Nghymru. Byddant yn ein helpu i benderfynu ar ein cyfeiriad yn y dyfodol. Mae'r Grŵp wedi bod yn ystyried sut i sicrhau swyddi, twf a chyfoeth cynaliadwy yn y sector ynni morol. Bydd yr adroddiad yn helpu i rannu cyfeiriad ynni morol yn y dyfodol.

Rydym yn cydnabod bod cyllid Ewropeaidd a chymryd rhan mewn rhwydweithiau a phartneriaethau yn rhan o'r ateb i sicrhau diwydiant morol cynaliadwy ond wedi dweud hynny, mae'n bwysig blaenoriaethu gweithgareddau a sicrhau mai'r diwydiant sy'n eu sbarduno.

**Argymhelliad 2**
**Sicrhau bod Llysgenhadon Cyllid yr UE yn cael eu cynnwys yng ngwaith y Grŵp Gorchwyl a Gorffen Ynni Morol newydd i sicrhau bod cyfleoedd ar gyfer**

**ariannu a chyllid o'r UE yn cael eu cynnwys yng ngwaith y grŵp hwn.**

**Ymateb: Derbyn yr egwyddor**

Mae’r Grŵp Gorchwyl a Gorffen wedi canfod bod anawsterau i gael gafael ar gyllid yn broblem i bob diwydiant newydd. Cydnabyddiaeth o hyn yw’r dyraniad o €100 miliwn o gronfeydd strwythurol yr UE. Er mwyn sicrhau bod digon o gyllid i ateb gofyn y diwydiant, rhaid ei dargedu i sicrhau ei fod yn creu’r manteision economaidd mwyaf o ran swyddi a thwf. Bydd angen ystyried sut mae gwneud hyn a chysoni hynny ag argymhellion y Grŵp Gorchwyl a Gorffen.

Cafodd Llysgenhadon Cyllid yr UE eu penodi i helpu i hyrwyddo a chryfhau’r cyfleoedd a ddaw trwy raglenni cyllido’r UE sy’n cael eu rheoli’n uniongyrchol. Cafodd y penodiadau eu gwneud fel ymateb i adroddiad y Pwyllgor Menter a Busnes ar gyfleoedd cyllido’r UE yn 2014-2020, a gyhoeddwyd ym mis Gorffennaf 2014. Tynnodd sylw at yr angen i ymwneud â rhaglenni’r UE sydd o dan reolaeth uniongyrchol yng Nghymru a’u hyrwyddo. Bydd y Llysgenhadon yn parhau yn eu swyddi tan etholiadau’r Cynulliad Cenedlaethol gan gyhoeddi adroddiad terfynol yng Ngwanwyn 2016.

Roedd adroddiad interim y Llysgenhadon a gyhoeddwyd ym mis Rhagfyr 2015 yn argymell creu Pwyllgor Rhyngadrannol Ewropeaidd i gadw golwg ar effaith polisïau’r UE a chyllid yr UE ar draws holl strategaethau a pholisïau Llywodraeth Cymru. O ganlyniad, cafodd Grŵp Polisi’r UE, gydag uwch swyddogion Llywodraeth Cymru o nifer o bortffolios yn aelodau ohono, ei sefydlu ac eisoes cynhaliwyd ei gyfarfod cyntaf. Mae hwn yn ddatblygiad pwysig fydd yn cael ei ddefnyddio i wella cysylltiadau, i gyfathrebu’n well ac i wneud yn fawr o’r cyfleoedd y mae’r UE yn eu cynnig.

**Argymhelliad 5**
**Darparu mwy o gymorth ariannol ar gyfer prosiectau casglu data morol, gan gynnwys effeithiau posibl datblygiadau ar yr amgylchedd morol. Dylai hyn gynnwys meddwl yn greadigol ac yn rhagweithiol ynghylch sut y gallai gwahanol ffrydiau cyllid yr UE gefnogi hyn.**

**Ymateb: Derbyn yr egwyddor**

Rydym yn aelodau brwd o Gyd-bartneriaeth Diwydiant Ynni Adnewyddadwy Alldraeth: prosiect Ynni’r Cefnfor (ORJIP:OE) ac yn cyfrannu at ei chyllido. Cafodd ei sefydlu i gynnal rhaglen ymchwil ledled y DU gyda’r amcan o leihau risgiau’r broses ganiatáu ar gyfer prosiectau ynni’r tonnau, llif y llanw ac ystod y llanw. Mae’r prosiect wedi cael hyd i waith ymchwil perthnasol ac wedi blaenoriaethu ymchwil allai lenwi’r bylchau yn ein gwybodaeth. Mae ORJIP:OE yn cydweithio’n glos ag amrywiaeth o gyrff ariannu i nodi cyfleoedd posibl ar gyfer ariannu ymchwil. Mae’n cefnogaeth i’r prosiect hwn yn parhau.

Rydym yn cydariannu gwaith hefyd ag Ystad y Goron a rheoleiddwyr i ystyried materion caniatáu ac ymchwil mewn parthau arddangos a safleoedd profi er mwyn dod â budd ehangach posib i sectorau ynni'r tonnau a llif y llanw. Mae argymhellion o weithdy wedi'u hymgorffori yng nghynllun gwaith ORJIP:OE.

Darparwyd £1 miliwn gennym i brosiect y Fframwaith Strategaeth Ynni Adnewyddadwy Morol (MRESF), i weld faint o botensial sydd yna yn Nyfroedd Cymru i gynhyrchu ynni adnewyddadwy y ac i ystyried senarios posibl ar gyfer datblygu'r adnodd hwnnw mewn ffordd gynaliadwy. Y prif nod oedd helpu i ddatblygu polisi ac i ddangos i ddatblygwyr posibl faint yr adnodd. Mae adnoddau ynni adnewyddadwy morol Dyfroedd Cymru'n cynnwys ynni gwynt ar y môr, tonnau, ystod y llanw a llif y llanw. Mae teclyn mapio ar gael i ddatblygwyr ei ddefnyddio sy'n dangos manylion yr adnodd a'r cyfyngiadau o fewn dyfroedd Cymru. Rydym wrthi'n pwyso a mesur p'un a ddylem gadw data'r MRESF ar blatfform allanol neu ei gadw ym Mhorthol Cynllunio Morol Llywodraeth Cymru.

Mae WEFO wedi cefnogi'r prosiect SEACAMS ym Mhrifysgol Bangor ac maen nhw wrthi'n ystyried bid ar gyfer SEACAMS2.

Bydd y system cynllunio morol yn seiliedig ar gynllun gan ddefnyddio'r dystiolaeth orau sydd ar gael. Caiff y dystiolaeth honno ei rhoi'n syth ar wefan y Llywodraeth.

Mae'r Porthol Tystiolaeth Morol yn cyflwyno setiau data amrywiol ac yn creu cyswllt iddyn nhw ar fap rhyngweithiol o Gymru. [llyw.cymru/apps/portholmorol](llyw.cymru/apps/portholmorol)

Rydym wedi cyhoeddi'r Adroddiad Tystiolaeth Morol (WMER) sy'n casglu amrywiaeth eang o wybodaeth gan nodi'r prif faterion sy'n gysylltiedig â chyflwr moroedd Cymru, ein hadnoddau naturiol morol a sut rydym yn eu defnyddio. [llyw.cymru/adroddiadtystiolaethmorol](llyw.cymru/adroddiadtystiolaethmorol)

Mae'r WMER yn nodi nifer o broblemau a bylchau tystiolaeth posibl sy'n berthnasol i gynllunio morol. Gydag adnoddau'n brin a nifer anferthol o weithgareddau yn yr arfaeth neu'n cael eu cynnal, mae'n hanfodol ein bod yn penderfynu pa wybodaeth sydd ei hangen arnom (ein blaenoriaethau o ran casglu tystiolaeth) a sut orau i dargedu hynny mewn ffordd gost-effeithiol.

I'r perwyl hwnnw, mae Strategaeth Tystiolaeth wrthi'n cael ei datblygu. Y bwriad yw iddi roi cyfeiriad i Lywodraeth Cymru a sefydliadau eraill o ran casglu tystiolaeth a sbarduno cydweithredu. Bydd gofyn i'r strategaeth nodi ffrydiau ariannu perthnasol lle bo angen. Byddai'r strategaeth yn rhan o broses ehangach i gael hyd i dystiolaeth a'i defnyddio i helpu i lunio polisïau a phenderfyniadau ynghylch y môr a physgodfeydd. Bydd yn bwysig sicrhau ein bod yn defnyddio arian yr UE i gasglu tystiolaeth.

**Argymhelliad 6**
**Adolygu polisi Ardaloedd Menter o ganlyniad i ddatganoli arfaethedig polisi**

**porthladdoedd. Yn benodol, dylai'r adolygiad ystyried a yw'r dull sector yn briodol ar gyfer yr ardaloedd hynny sy'n cynnwys porthladdoedd, o ystyried cwmpas y cyfleoedd o fewn yr economi forol. Dylai'r adolygiad hefyd ystyried a oes angen mwy o Ardaloedd Menter i gefnogi datblygiad porthladdoedd.**

**Ymateb: Derbyn**

Mae gan lawer o'r Ardaloedd Menter borthladdoedd ynddyn nhw neu gerllaw. Mae'r cynlluniau strategol a ddatblygwyd gan y Byrddau Cynghori ar gyfer pob Ardal Fenter wedi rhoi ystyriaeth i'r seilwaith sy'n bodoli ym mhob Ardal, gan gynnwys porthladdoedd.  Bydd y Byrddau, fel rhan o'u gwaith ac o'r adolygiad parhaus o'u cynlluniau strategol, yn ystyried a oes angen cynnal adolygiad pellach yng ngoleuni'r bwriad i ddatganoli polisi porthladdoedd.

**Argymhelliad 7**
**Datblygu prosiectau ffyrdd priodol ac effeithiol i wella llif traffig ar yr A55 a'r A40 o ystyried y risg i borthladdoedd yn sgil newidiadau ymylol o ran effeithlonrwydd.**

**Ymateb: Derbyn**

Mae' bwysig bod gan borthladdoedd gysylltiadau ffyrdd a rheilffyrdd â'u dalgylchoedd ac mae hynny'n elfen gref o argymhellion  y Grŵp Gorchwyl a Gorffen Cludo Nwyddau.  Derbyniais argymhellion y Grŵp a chyhoeddi Datganiad Ysgrifenedig llyw.cymru/GorffenaGorchwylCludoNwyddau.  Adlewyrchir yr argymhellion yn y Cynllun Cyllid Trafnidiaeth Cenedlaethol.

**Argymhelliad 8**
**Gweithio gyda phorthladdoedd perthnasol a rhanddeiliaid lleol eraill yn ogystal â Network Rail a'r Adran Drafnidiaeth i ystyried sut y gall cynlluniau moderneiddio'r rheilffyrdd yng Nghymru helpu i ddatblygu'r diwydiant cludo nwyddau ar y rheilffyrdd er mwyn gwasanaethu porthladdoedd Cymru.**

**Ymateb: Derbyn**

Tynnwyd sylw hefyd at bwysigrwydd cysylltiadau rheilffyrdd rhwng porthladdoedd a'u dalgylchoedd yn argymhellion y Grŵp Gorchwyl a Gorffen Cludo Nwyddau. Dangosir hynny yn yr ymateb i argymhelliad 7. Rydym wedi gweithio gyda'r sector, rhanddeiliaid a phartneriaid a pharhawn i wneud hynny i roi'r argymhellion ar waith, e.e. i wella lled Lein y Great Western/Prif Lein De Cymru ac fel rhan o'r gwaith o foderneiddio Prif Lein y Gogledd.

**Argymhelliad 9**
**Gweithredu'n bendant yn dilyn datganoli pwerau cynllunio porthladdoedd er mwyn symleiddio a chyflymu proses gynllunio porthladdoedd a'i**

**hintegreiddio â phroses trwyddedu a chaniatadau morol effeithiol sydd ag adnoddau addas er mwyn gwneud penderfyniadau yn gyflym ynghylch ceisiadau datblygu. Dylid ystyried cynnwys gwelliannau i borthladdoedd mawr a datganoledig Cymru fel Datblygiadau o Arwyddocâd Cenedlaethol o dan Ddeddf Cynllunio (Cymru) 2015.**

**Ymateb: Derbyn**

Mae'n bwysig i bob sector, gan gynnwys porthladdoedd, bod yna broses gynllunio a chaniatáu effeithiol, yn enwedig os ydy'r datblygiadau'n fawr ac yn gymhleth. Mae cyfleoedd i symleiddio a chyflymu'r broses yn cael eu hystyried o fewn fframwaith y ddeddfwriaeth a'r ystod o ddyletswyddau statudol perthnasol. Wrth ymgynghori â'r sector ac wrth i fanylion y datganoli arfaethedig ddod i law, byddwn yn ystyried cynnwys porthladdoedd fel Datblygiadau o Arwyddocâd Cenedlaethol, gan gydnabod nad y broses olaf o reidrwydd fyddai'r cyfrwng caniatáu mwyaf addas gan ei fod yn ymdrin yn unig â phrosiectau sy'n gyfan gwbl ar y glannau.

**Argymhelliad 10**
**Ymgysylltu â phorthladdoedd Cymru a Grŵp Porthladdoedd Cymru i egluro cwmpas y strategaeth ar gyfer porthladdoedd Cymru yn y dyfodol a sut y bydd hynny'n cael ei ddatblygu i roi sicrwydd i'r sector.**

**Ymateb: Derbyn**

Rydym wedi ymrwymo i ddatblygu strategaeth mewn cydweithrediad clos â phorthladdoedd Cymru ac edrychwn ymlaen at ymgysylltu'n fanylach â'r sector wrth i hyd a lled y datganoli ddod yn gliriach.

**Argymhelliad 11**

- **Datblygu Polisi Porthladdoedd i Gymru sy'n:**
- **Darparu gweledigaeth glir ar gyfer porthladdoedd Cymru ac arweinyddiaeth strategol sy'n cefnogi porthladdoedd i gyflawni eu nodau;**
- **Nodi'n glir lle mae angen cymorth ychwanegol, er enghraifft, o ran nodi a darparu seilwaith neu wasanaethau sydd â budd economaidd ehangach ond sy'n cynhyrchu elw uniongyrchol cyfyngedig i'r porthladdoedd eu hunain;**
- **Alinio â pholisïau twf glas a thrafnidiaeth yr UE er mwyn hwyluso ymgysylltu â'r UE a chefnogi ceisiadau am gyllid gan yr UE;**
- **Annog datblygu a rhoi prif gynlluniau porthladdoedd ar waith, sy'n adlewyrchu rôl ehangach porthladdoedd yn yr economi forwrol, a'r economi leol yn gyffredinol;**
- **Cynnwys asesiad o allu cystadleuol porthladdoedd Cymru;**
- **Cynnwys porthladdoedd mewn polisïau allweddol yng Nghymru, yn arbennig ar ddatblygiad yr economi forwrol, polisi trafnidiaeth, polisi**

**amgylcheddol a chynllunio a pholisïau ehangach sy'n cefnogi twf economaidd.**

**Ymateb: Derbyn**

Mae adroddiad y Pwyllgor yn cynnig rhestr ddefnyddiol o elfennau i’w hystyried ar gyfer eu hintegreiddio wrth ddatblygu polisi Porthladdoedd Cymru y cyfeirir ato yn argymhelliad 10, yn amodol ar ganlyniad ymgynghoriad â rhanddeiliaid a natur datganoli’r polisi porthladdoedd yn y Bil Cymru terfynol.

**Argymhelliad 12**
**Blaenoriaethu buddsoddiad cynyddol mewn gallu ymchwil morol, gan gynnwys trafodaethau â Llysgenhadon Cyllid yr UE ar y cyd ag Addysg Uwch yng Nghymru ar sut y gellir defnyddio cyllid yr UE a chyllid arall i gefnogi hyn. Dylai hyn gynnwys archwilio'r potensial ar gyfer datblygu cais COFUND ar gyfer ymchwil morol.**

**Ymateb: Derbyn**

Gan mai prin gropian y mae’r diwydiant morol yng Nghymru, mae angen rhagor o ymchwil ond y diwydiant ddylai arwain yr ymchwil honno. Dau faes yn arbennig yw effaith dyfeisiau morol ar yr amgylchedd a datgomisiynu dyfeisiau morol. Mae fy Ngrŵp Gorchwyl a Gorffen wedi nodi ymchwil a datblygu fel un o’r chwe blaenoriaeth i’r sector, yn enwedig effaith dyfeisiau ar amgylchedd y môr.

Mae Prifysgol Abertawe eisoes yn gobeithio denu arian o’r UE i gynnal ymchwil forol. Bydd y rownd cyd-gyllido a Sêr Cymru 2 yn dechrau cyn hir gyda cheisiadau i’w cyflwyno ddechrau mis Hydref 2016.

Gofynnaf ichi ddarllen hefyd fy ymateb i Argymhelliad 5.

**Argymhelliad 13**
**Gofyn i Lysgenhadon Cyllid yr UE edrych am gyfleoedd i raglenni cyllido'r UE gefnogi'r agenda hwn, gan gynnwys (ond nid yn unig) Erasmus+, Horizon 2020, Cronfa Gymdeithasol Ewrop a'r Rhaglenni Cydweithio Tiriogaethol.**

**Ymateb: Derbyn yr egwyddor**

Dros y 14 mis diwethaf, mae Llysgenhadon Cyllid yr UE wedi bod yn dibynnu ar eu profiad a’u gwaith personol o fewn eu sectorau i hyrwyddo cyfleoedd y mae rhaglenni cyllid 2014-2020 yr Undeb Ewropeaidd sydd o dan ei reolaeth uniongyrchol yn eu cynnig ac i wneud y gorau o’r cyfleoedd hynny. Canolbwynt eu gweithgarwch yw’r agweddau hynny ar Raglenni a Pholisïau’r UE sydd â’r potensial i gael yr effaith fwyaf, bob yn un a chyda’i gilydd. Er mwyn helpu eu gwaith, cynhaliwyd rhaglen eang o drafodaethau gyda Gweinidogion, swyddogion

Llywodraeth Cymru a phartneriaid Cymreig a threfnwyd digwyddiadau ar lefel y yn y wlad hon a'r UE.

Cafodd canfyddiadau cychwynnol y Llysgenhadon eu cyhoeddi yn eu hadroddiad interim ym mis Rhagfyr 2015, a daw eu gwaith i ben ar ôl cyflwyno'u hadroddiad terfynol yng Ngwanwyn 2016. Bydd yr adroddiad terfynol yn cynnwys casgliadau eu rhaglen waith a'r argymhellion i'r Llywodraeth newydd ar gyfer y cyfnod sy'n weddill o rownd ddiweddaraf rhaglenni'r UE (2014-2020).

**Argymhelliad 15**
**Cynnal ymarfer mapio yn edrych ar anghenion sgiliau a hyfforddiant yr economi forol yn y dyfodol ac adolygu'r ddarpariaeth bresennol o ran hyffordiant ym maes Addysg Uwch ac Addysg Bellach yng Nghymru i ategu'r anghenion hyn ar gyfer y dyfodol. Dylai ystyried y gwaith a wnaed eisoes i edrych ar anghenion y sector ynni morol o ran sgiliau.**

**Ymateb: Derbyn**

Yn y cam hwn, mae angen rhagor o drafod i ddeall beth yw ôl troed sector yr economi forol ac eglurhad pellach i ddiffinio pwrpas y gwaith a sut y caiff unrhyw ganfyddiadau eu defnyddio. Penderfynir ar ffocws y sector ar ôl yr etholiad fel bod unrhyw benderfyniad terfynol yn cael ei wneud yn ei gyd-destun.

Wrth i Swyddogion barhau i fonitro anghenion y farchnad lafur yn y dyfodol trwy ragolygon fel cyfres 'Working Futures' Comisiwn y DU, rhagolygon penodol fel y rheini sy'n ymwneud â Lagŵn Llanw Bae Abertawe a thrwy holi cyflogwyr, caiff yr angen am astudiaethau pellach ei bwyso a'i fesur yn ôl yr adnoddau sydd ar gael. Flwyddyn nesaf, mae Llywodraeth Cymru'n bwriadu cynnal Archwiliad Strategol Cenedlaethol o Sgiliau fydd yn ymhelaethu ar y gwaith a ddisgrifir uchod (gan gynnwys yr economi forol) i bennu'r blaenoriaethau o ran sgiliau.

Cyhoeddodd y Dirprwy Weinidog Sgiliau a Thechnoleg y tair Partneriaeth Sgiliau Ranbarthol a'u rôl i ddarparu mecanwaith i ymateb i'r uchelgais o "Sgiliau sy'n ymateb i anghenion lleol" yn unol â'r Cynllun Gweithredu ar Sgiliau a gafodd ei ddatblygu fel ymateb i'r Datganiad Polisi ar Sgiliau a gyhoeddwyd ym mis Ionawr 2014. Elfen bwysig o'u gwaith yw cynhyrchu cynlluniau Gwaith a Sgiliau blynyddol yn seiliedig ar wybodaeth gadarn, gan ddefnyddio'u rhwydweithiau cyflogwyr. Mae gan bob Partneriaeth ei harsyllfa sgiliau. Bydd swyddogion yn cadw mewn cysylltiad â phob Partneriaeth i asesu ac adolygu'u data am yr economi forol yng Nghymru. Bydd hyn yn effeithio ar ein hymateb terfynol i'r argymhelliad.

**Argymhelliad 16**
**Rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Cynulliad am y cynnydd yn y rhestr o brosiectau posibl a nodwyd ar gyfer cefnogaeth gan yr EFSI.**

**Ymateb: Derbyn**

Mae'r Gweinidog Cyllid a Busnes y Llywodraeth wedi rhoi rhestr o'r prosiectau cyhoeddus a phreifat a hyrwyddwyd i'r EIB fel rhai sy'n ceisio am EFSI, neu yn wir, unrhyw offeryn cyllido prosiectau eraill a gynigir gan y Banc, i'w Pwyllgor. Ers i'r Gweinidog Cyllid roi tystiolaeth i'r Pwyllgor, mae dau gam pwysig wedi'u cymryd. Yn gyntaf, cyfarfu'r Gweinidog ag Is-Lywydd yr EIB, Jonathan Taylor yng Nghampws Arloesi Bae Abertawe fis Hydref. Dyna eu hail gyfarfod ar EFSI yn 2015. Ar ôl cael amser i ystyried y rhestr prosiectau, nododd Jonathan bedwar cynllun a fyddai yn ei farn e yn flaenoriaeth i'r EIB: dau brosiect cyhoeddus (ailddatblygu Ysbyty Felindre a deuoli adrannau 5 a 6 o'r A465); a dau brosiect preifat (Lagŵn Bae Abertawe a'r Ynys Ynni).

Aiff gwaith yn ei flaen nawr i'w datblygu (a phrosiectau eraill) at bwynt pan fydd angen penderfyniadau cyllido. Cafwyd yr ail gam nodedig fis Tachwedd ddiwethaf. Fel rhan o'r Cynllun Buddsoddi ar gyfer Ewrop, cafodd Hyb Cynghori ar Fuddsoddi yn Ewrop (EIAH) ei greu yn yr EIB i roi cyngor i hyrwyddwyr prosiectau cyhoeddus a phreifat ar brosiectau'r EFSI. Derbyniodd swyddogion o'r EIAH wahoddiad i ymweld â Chymru i siarad â hyrwyddwyr prosiectau am eu gwaith. Daeth rhyw saith deg o hyrwyddwyr prosiectau o bob rhan o Gymru ynghyd ar gyfer y digwyddiad. Hwn oedd y digwyddiad cyntaf o'i fath i'r EIAH ei gynnal yn y DU, a gyda'r cyntaf yn Ewrop.

**Argymhelliad 17**
**Ymgysylltu'n llawer mwy rhagweithiol â sefydliadau'r UE a rhanddeiliaid perthnasol eraill i ddatblygu'r cysylltiadau angenrheidiol i fanteisio ar CEF a ffynonellau eraill posibl o gyllid yr UE ar gyfer trafnidiaeth. Dylai hyn gynnwys cyfranogiad Gweinidogol mewn digwyddiadau rhanddeiliaid, fel Diwrnodau TEN-T.**

**Ymateb: Derbyn yr egwyddor**

Mae hyn eisoes yn mynd rhagddo ac yn parhau fesul achos. Dylai cyfranogiad Gweinidogion yn nigwyddiadau cyffredinol y rhanddeiliaid gyfateb i'r manteision y mae'r digwyddiadau'n debygol o esgor arnyn nhw.

**Argymhelliad 18**
**Ymgysylltu, fel mater o frys, â Llywodraeth y DU, Llywodraeth Iwerddon, porthladdoedd Iwerddon, porthladdoedd Cymru, rhanddeiliaid perthnasol yng Nghymru a Chomisiwn yr UE i ddatblygu cynigion ar gyfer Cyllid Trafnidiaeth yr UE, yn enwedig prosiectau Traffyrdd y Môr. Yn benodol, dylai Llywodraeth Cymru gynnal cynhadledd i ganiatáu i randdeiliaid, yn enwedig porthladdoedd Cymru, ddeall cyfleoedd cyllido'r UE ac ystyried ffordd ymlaen.**

**Ymateb: Derbyn yr egwyddor**

Mae hyn eisoes yn mynd rhagddo a bydd yn parhau. Mae wedi cynnwys cyflwyniad

i Grŵp Porthladdoedd Cymru ar gyfleoedd cyllido o dan y Cyfleuster Cysylltu Ewrop. Byddwn yn ymgynghori â phartneriaid i weld a oes diddordeb mewn cynnal cynhadledd.

**Argymhelliad 19**
**Rhoi i borthladdoedd y gefnogaeth sydd ei hangen arnynt i gael gafael ar gyllid yr UE a ffynonellau eraill. Efallai y bydd angen i Lywodraeth Cymru adolygu a oes gan ei staff y sgiliau a'r hyfforddiant cywir i wneud hyn.**

**Ymateb: Derbyn yr egwyddor**

Byddwn yn ymgynghori â'r sector i drafod y cymorth sydd ei angen arno ac yn adolygu sgiliau a hyfforddiant yn ôl y gofyn.

**Argymhelliad 20**
**Gofyn i uned Horizon 2020 WEFO fynd i'r afael â'r alwad gan fusnesau bach a chanolig i gael cyngor a chefnogaeth arbenigol unigol o ran manteisio ar gyfleoedd drwy raglenni cyllido'r UE.**

**Ymateb: Derbyn yr egwyddor**

Rydym wedi sefydlu'r cynllun Arloesi SMART, o dan nawdd yr ERDF, sy'n cynnwys cymorth un i un wedi'i dargedu ar gyfer busnesau o Gymru sy'n ystyried gwneud cais i Horizon 2020. Mae hyn yn golygu bod cyngor ar Horizon 2020 wedi'i integreiddio o fewn y cymorth ehangach ar arloesi a ddarperir trwy Lywodraeth Cymru. Mae hynny'n sicrhau bod busnesau'n derbyn y cymorth sy'n addas ar gyfer eu datblygiad.

Trwy ein tri chynllun SMART (SMART Arloesi, SMART Cymru a SMART Arbenigol), rydym wedi sefydlu cyfres integredig o gynlluniau i sbarduno'r arloesedd sydd ei angen yng Nghymru i fanteisio ar gyllid fel Horizon 2020.

Yn ogystal â SMART, mae Uned Horizon 2020 yn WEFO yn gallu rhoi arweiniad cychwynnol a thrwy weithio'n glos â rhwydwaith cymorth Horizon 2020 UK, cyngor mwy arbenigol. Mae'r Pwyntiau Cyswllt Cenedlaethol wedi ymweld â Chymru sawl gwaith ac wedi rhoi cyflwyniadau ar y we. Mae Uned Horizon 2020 ar gael i helpu i drefnu rhagor o gyfarfodydd a gweithdai yng Nghymru ar gyfer busnesau sydd â diddordeb mewn Horizon 2020, fel Marine Energy Pembrokeshire.

Hefyd, mae Uned Horizon 2020 wedi helpu busnesau morol gydag arian o gronfa SCoRE Cymru Llywodraeth Cymru i'w helpu i ddatblygu partneriaethau ac i ysgrifennu ceisiadau am arian Horizon 2020.